# Dim ar ein cyfer ni heb ni



**Rydym yn dymuno i bobl ifanc sydd â phrofiad blaenorol ac uniongyrchol o ddefnyddio sylweddau i fod wrth wraidd y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau i bobl ifanc.**

## Pwy yw'r bobl sydd â phrofiad blaenorol ac uniongyrchol o ddefnyddio sylweddau?

Mae diffiniadau yn gwahaniaethu, gan ddibynnu ar y ffynhonnell, ond i bob pwrpas, pobl sydd â phrofiad blaenorol yw pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan eu defnydd nhw neu ddefnydd aelod o'u teulu o sylweddau, sydd wedi peri problemau, ac efallai y bydd yr unigolyn yn diffinio eu hunain fel rhywun sy'n adfer. Mewn perthynas â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ddefnyddio sylweddau, mae hyn yn cyfeirio at bobl sy'n cael eu heffeithio gan eu defnydd nhw neu ddefnydd aelod o'u teulu o sylweddau ar hyn o bryd, ac efallai bod yr unigolyn yn manteisio ar wasanaethau trin er mwyn cael cymorth. Rydym yn ceisio ymgysylltu mewn ffordd effeithiol â phobl sydd â phrofiadau o'r fath a'u cynnwys mewn cymaint o elfennau o ddarparu gwasanaeth ag y bo modd. Fodd bynnag, teimlwn bod bwlch sylweddol yn bodoli o ran ymgysylltu â phobl ifanc sydd â phrofiadau blaenorol ac uniongyrchol yn y gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau, a'u darparu wedi hyn, sy'n ceisio eu cynorthwyo.

Credwn bod gan bobl ifanc sydd wedi cael profiadau o'r fath gryn dipyn i'w ddysgu i ni ac mae gennym ni lawer i'w ddysgu ganddyn nhw. O ganlyniad, mae gan bobl ifanc gryn dipyn i'w gynnig wrth gynllunio gwasanaethau ar eu cyfer nhw, a'u cynorthwyo i oresgyn sefyllfaoedd heriol ac anodd, yn ogystal â chynnig y sylfeini iddynt ddatblygu a ffynnu, wrth iddynt symud ymlaen i fod yn oedolion. Nid yn unig y gallwn ddysgu gan bobl ifanc, ond un o'r prif fanteision o'u cynnwys mewn prosesau o'r fath yw bod ganddynt fynediad breintiedig i bobl ifanc eraill, sy'n caniatáu'r broses o lunio syniadau ychwanegol ynghylch datblygiad gwasanaethau, yn ogystal â datblygu llwybrau cyfathrebu hollbwysig ymhlith eu cymheiriaid y gallent helpu i leihau stigma a'r rhwystrau cysylltiedig wrth fanteisio ar wasanaethau trin gymaint ag y bo modd.

## Beth mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu?

Wrth ymchwilio i bobl sydd â phrofiad blaenorol ac uniongyrchol yn ymwneud â'r broses o ddarparu gwasanaethau trin defnyddio sylweddau, mae cryn dipyn o hyn yng nghyd-destun oedolion. Fodd bynnag, cynhaliwyd rhai astudiaethau ynghylch cyfranogiad pobl ifanc mewn agweddau amrywiol ar ddefnyddio sylweddau, megis eu cynnwys mewn gwaith ymchwil. Yr hyn a ganfuwyd yw ei fod wedi galluogi pobl ifanc i feithrin ystod eang o sgiliau newydd ym maes cyfathrebu, arweinyddiaeth a phroffesiynoldeb,[1] yn ogystal ag amlygu sut y gall cynnwys pobl ifanc yn y broses o gyd-gynllunio a chyd-ddarparu gwasanaethau ar gyfer y grŵp oedran hwn wella a sicrhau perthnasedd, hygrededd ac ansawdd.[2] Mae cynnwys pobl ifanc mewn prosesau o'r fath yn caniatáu cynllunio a darparu gwasanaeth er mwyn sicrhau bod cymaint o rwystrau wrth fanteisio ar gymorth yn cael eu nodi a'u lliniaru, yn ogystal â sicrhau bod y gwasanaeth yn lliniaru teimladau lle na fydd pobl yn teimlo eu bod yn haeddu cael cymorth, yn enwedig yn ystod y cam atal ac ymyrraeth gynnar.[2]

### Gwasanaeth Cenhadon Ieuenctid (YAS), Gwent N-Gage

*"Mae'r YAS yn caniatáu i ni gael ein llais ein hunain o ran y ffordd yr ydym yn credu y dylai gwasanaethau a darpariaeth gwasanaethau wella. Mae'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn credu y gallwn gynnwys mwy o bobl, oherwydd mae'n iawn i chi fel oedolion geisio ein cynnwys, ond y bobl sy'n ein hadnabod ni a'n grŵp oedran, yw ni.*

*"Mae Gwent N-Gage wedi estyn allan, trwy ddatblygu'r YAS, er mwyn cael ein cyngor a'n barn ar y ffordd yr hoffem weld pethau'n cael eu rhedeg ac yna gallwch chi (gwasanaethau) helpu i hwyluso'r rhain i ni.*

*"Mae cael cyswllt â YAS yn rhoi rhywbeth cadarnhaol i mi weithio tuag ato a theimlo'n falch ohono, ac mae'n rhoi rheswm arall i mi gadw i ffwrdd o ysmygu (canabis)".*

*Rin, un o'r aelodau a sefydlodd YAS trwy bodlediad Drugs Unwrapped.[3]*

Mae cynnwys pobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan neu sydd wedi cael eu heffeithio gan ddefnyddio sylweddau, a hynny mewn ffordd ystyrlon, yn hollbwysig er mwyn lleihau niwed, gan gynnwys wrth gynllunio gwasanaethau, darparu gwasanaeth, llunio polisïau a ffurfiau o eiriolaeth.[4] Fodd bynnag, ar draws llenyddiaeth academaidd, ychydig iawn o enghreifftiau a geir o arfer gorau ac ymgysylltu â phobl ifanc am faterion o'r fath mewn ffordd gyfiawn, nid yn unig yng Nghymru a'r DU, ond ar draws y byd. Mae tystiolaeth yn dynodi, pan fydd pobl ifanc wedi bod yn ymwneud â gweithgarwch llunio polisïau a datblygu gweithgarwch lleihau niwed, mae hyn yn aml wedi bod yn docynistaidd heb gynnig disgwyliadau clir neu annibyniaeth mewn perthynas â gwneud penderfyniadau.[4]

## Pam nawr?

O fewn gwasanaethau trin, rhoddir cryn bwyslais ar bwysigrwydd a gwerth cynnwys pobl sydd â phrofiad blaenorol ac uniongyrchol o ddefnyddio sylweddau, wrth ddarparu ymyriadau lleihau niwed. Mae'r ddadl dros hyn wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac o ganlyniad, mae nifer o wasanaethau ar draws Cymru wedi hwyluso gweithgarwch dosbarthu naloxone rhwng cymheiriaid, i gyd-fynd â modelau sy'n bodoli eisoes er mwyn dosbarthu'r feddyginiaeth sy'n achub bywydau.[5] Mae prosiectau o'r fath yn cynnwys pobl sydd â budd mewn perthynas â naloxone, yn ogystal â mynediad breintiedig i unigolion sydd mewn perygl o gael eu heffeithio gan orddos opioidau, nad ydynt yn cael cyswllt â gwasanaethau trin efallai. Er mai un enghraifft yw hwn o bobl sydd â phrofiad blaenorol neu uniongyrchol yn ymwneud â darparu gwasanaethau defnyddio sylweddau, mae eu cynnwys yn y broses o gynllunio gwasanaethau, a phobl ifanc yn arbennig, yn llawer llai cyfyngedig.

Mae pobl sydd â phrofiad blaenorol ac uniongyrchol o ddefnyddio sylweddau yn dwyn gwahanol bersbectif i weithgarwch cynllunio gwasanaeth, ei ddarparu a pholisi cysylltiedig, gan bod eu profiadau nhw yn gallu helpu i amlygu bylchau a diffygion yn y system trin defnyddio sylweddau, yn ogystal ag ar draws systemau cymdeithasol eraill y gallent wella ymyriadau lleihau niwed yn gyffredinol. Trwy gydnabod a defnyddio profiad person ifanc a'u gwybodaeth o ddefnyddio systemau a'r profiad uniongyrchol o stigma, mae hyn yn galluogi llunwyr polisi, ar y cyd â phobl ifanc, i nodi rhwystrau a datrysiadau cysylltiedig, a datblygu a chynllunio gwasanaethau teg, cost-effeithiol ac ar lefel uchel.

Cydnabuwyd bod cynnwys persbectifau pobl sydd â phrofiad blaenorol ac uniongyrchol yn arwain at ganllawiau, strategaethau a pholisïau yn dod yn fwy cyson, gan gydnabod bod eu profiadau yn hollbwysig ar bob lefel, o gynllunio gwasanaeth i werthuso.[6] Fodd bynnag, yr hyn sy'n arwyddocaol yw'r budd y bydd pobl sydd â phrofiad blaenorol ac uniongyrchol yn ei gael o fod yn rhan o brosesau o'r fath, gan gynnwys mwy o hyder a hunan-barch, mwy o sefydlogrwydd a strwythur, y cyfle i feithrin sgiliau newydd, grymuso, a mwy o gyfalaf adfer ar gyfer unigolion a chymunedau.[7]

## Beth mae Barod wedi ei wneud a beth yw ein camau nesaf?

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cydnabod angen a dymuniad pobl ifanc i ymwneud â'r ffordd y dylid datblygu a darparu gwasanaethau lleihau niwed ar eu cyfer nhw. O ganlyniad, mae gan nifer o'n gwasanaethau i bobl ifanc fforymau sefydledig sy'n galluogi pobl ifanc i gael llais ac i fynegi eu syniadau ynghylch sicrhau bod gwasanaethau yn dod mor deg, priodol a pherthnasol ag y bo modd. Yn fwyaf diweddar, helpodd y Gwasanaeth Cenhadon Ifanc, fforwm i bobl ifanc o fewn Gwent N-Gage,[8] i ysgrifennu ein hymatebion i'r cais a fu yn ddiweddar i dendro am wasanaethau pobl ifanc yng Ngwent. Rydym yn ystyried mai hyn, yn ogystal â datblygiad fforymau o'r fath a chynnwys pobl ifanc mewn paneli cyfweld, yw'r cychwyn yn unig.

## Beth ydym yn ei ddymuno?

- Rydym yn galw ar yr holl Fyrddau Cynllunio Ardal ar draws Cymru i gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad blaenorol neu uniongyrchol o ddefnyddio sylweddau, yn y broses o gynllunio, datblygu, darparu, monitro a gwerthuso gwasanaethau pobl ifanc.
- Rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad blaenorol ac uniongyrchol o ddefnyddio sylweddau i gael eu cynnwys mewn ymarferion ymgynghori sy'n ymwneud â datblygu fframweithiau, strategaethau a pholisïau sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

barod

# Cyfeiriadau


1. Turuba, R. (2022) Practical Considerations for Engaging Youth With Lived And/or Living Experience of Substance Use as Youth Advisors and Co-Researchers
2. Turuba, R. (2022) A qualitative study exploring how young people perceive and experience substance use services in British Columbia, Canada
3. Episode #11 Adults, young people and somewhere in between, Drugs Unwrapped Podcast (2024)
4. Stowe, M. (2022) The challenges, opportunities and strategies of engaging young people who use drugs in harm reduction: insights from young people with lived and living experience
5. https://naloxone.org.uk/
6. Sunkel, C & Sartor, C. (2022) Perspectives: involving persons with lived experience of mental health conditions in service delivery, development and leadership
7. Office for Health Improvement & Disparities (2023) Part 1: introducing recovery, peer support and lived experience initiatives
8. Gwent N-Gage